

Dimensiynau

1.

Mae gan bob un o'r meintiau canlynol nifer penodol o ddimensiynau. Rhowch nifer y dimensiynau ar gyfer pob maint. Mae'r un cyntaf wedi'i wneud i chi.

Maint	Nifer y dimensiynau
Cynhwysedd tanc dŵr	3
Cyfaint sffêr	
Cylchedd cylch	
Arwynebedd arwyneb crwm côn	
Perimedr petryal	

[2]

2.

Ym mhob un o'r fformiwlâu canlynol, mae pob llythyren yn cynrychioli mesuriad hyd. Trwy ystyried y dimensiynau a awgrymir gan y fformiwlâu, ysgrifennwch, ar gyfer pob un, a allai'r fformiwla fod ar gyfer hyd, arwynebedd, cyfaint neu ddim un o'r rhain.

Mae'r un cyntaf wedi'i wneud i chi.

Gallai'r fformiwla fod ar gyfer

$hw + 2r^2$	arwynebedd
$(hr - w^2)r$
$4(h + w + r)$
$h(hw + r)$
$w(h + r)$

[2]

3.

Mae gan bob un o'r meintiau canlynol nifer penodol o ddimensiynau. Rhowch nifer y dimensiynau ar gyfer pob maint.

Maint	Nifer y dimensiynau
Arwynebedd cae pêl-droed	
Cyfaint potel o sudd ffrwyth	
Hyd rhedfa (<i>runway</i>) maes awyr	

[2]

4.

Mae gan bob un o'r meintiau canlynol nifer penodol o ddimensiynau. Rhowch nifer y dimensiynau ar gyfer pob maint. Mae'r un cyntaf wedi'i wneud i chi.

Maint	Nifer y dimensiynau
Cynhwysedd tanc pysgod	3
Cyfaint pyramid	
Diamedr cylch	
Arwynebedd arwyneb prism trionglog	
Perimedr sgwâr	

[2]

5.

Mae gan bob un o'r meintiau canlynol nifer penodol o ddimensiynau. Rhowch nifer y dimensiynau ar gyfer pob maint. Mae'r un cyntaf wedi'i wneud i chi.

Maint	Nifer y dimensiynau
Cynhwysedd pwll nofio	3
Pellter ras ar y ffordd (<i>road race</i>)	
Cyfaint pêl griced	
Arwynebedd cae pêl-droed	
Taldra chwaraewraig bêl-rwyd	

[2]

6.

Ym **mhob un** o'r fformiwlâu canlynol, mae pob llythyren yn cynrychioli mesuriad hyd. Trwy ystyried y dimensiynau a awgrymir gan y fformiwlâu, ysgrifennwch, ar gyfer **pob un**, a allai'r fformiwla fod ar gyfer hyd, arwynebedd, cyfaint neu ddim un o'r rhain.

Mae'r un cyntaf wedi'i wneud i chi.

Gallai'r fformiwla fod ar gyfer

$2ab + c^2$	arwynebedd
$4a + 3b - c$
$5ab^2$
$ab + c^3$
$(a + 2b)c$

[2]

7.

Ym mhob un o'r fformiwlâu canlynol, mae pob llythyren yn cynrychioli mesuriad hyd. Trwy ystyried y dimensiynau a awgrymir gan y fformiwlâu, ysgrifennwch, ar gyfer pob un, a allai'r fformiwla fod ar gyfer hyd, arwynebedd, cyfaint neu ddim un o'r rhain. Mae'r un cyntaf wedi'i wneud i chi.

Gallai'r fformiwla fod ar gyfer

$r^2 + dh$	arwynebedd
$r^2(2d - h)$
$3d + 2h - r$
$5r + 6dr + 2d$

[1]

8.

Ym mhob un o'r fformiwlâu canlynol, mae pob llythyren yn dynodi mesuriad hyd. Trwy ystyried y dimensiynau a awgrymir gan y fformiwlâu, ysgrifennwch, ar gyfer pob un, a allai'r fformiwla fod ar gyfer hyd, arwynebedd, cyfaint neu ddim un o'r rhain. Mae'r un gyntaf wedi'i gwneud i chi.

Gallai'r fformiwla fod ar gyfer

$d^2 + hr$	arwynebedd
$4d + 3r + 5h$
$6rh + 5h^2r$
$(d^2 + dh)r$
$5rh + 4r^2 - 7rd$

[2]

9.

Mae gan bob un o'r meintiau canlynol nifer penodol o ddimensiynau. Rhwch nifer y dimensiynau ar gyfer pob maint. Mae'r un cyntaf wedi'i wneud i chi.

Maint	Nifer y dimensiynau
Y pellter a deithiwyd mewn dau lap o gylchffordd (<i>circuit</i>).	1
Cyfaint ciwboid.	
Arwynebedd arwyneb crwm silindr.	
Perimedr petryal.	
Arwynebedd cylch.	

[2]

10.

Mae gan bob un o'r meintiau canlynol nifer penodol o ddimensiynau. Rhwch nifer y dimensiynau ar gyfer pob maint. Mae'r un cyntaf wedi'i wneud i chi.

Maint	Nifer y dimensiynau
Cynhwysedd jwg.	3
Y pellter rhwng Caerdydd a'r Wyddgrug.	
Arwynebedd cae.	
Perimedr hecsagon.	
Cyfaint ciwboid.	

[2]

11.

Ym mhob un o'r fformiwlâu canlynol, mae pob llythyren yn cynrychioli mesuriad hyd. Trwy ystyried y dimensiynau a awgrymir gan y fformiwlâu, ysgrifennwch, ar gyfer pob un, a allai'r fformiwla fod ar gyfer hyd, arwynebedd, cyfaint neu ddim un o'r rhain. Mae'r un cyntaf wedi'i wneud i chi.

Gallai'r fformiwla fod ar gyfer

$d^2 - hd$	arwynebedd
$(d - 3r)r^2$
$7d + 6h + 2r$
$4rh - 3r^2 + dh$
$3rh + 2rd - h$

[2]

12.

Mae gan bob un o'r meintiau canlynol nifer penodol o ddimensiynau. Rhwch nifer y dimensiynau ar gyfer pob maint. Mae'r un cyntaf wedi'i wneud i chi.

Maint	Nifer y dimensiynau
Cynhwysedd jwg	3
Cylchedd cylch	
Cyfaint ciwboid	
Y pellter rhwng Caerdydd a Llanfair ym Muallt	
Arwynebedd petryal	

[2]